ATODLEN 8

Pasbortau planhigion y Swistir

# RHAN A

## Deunydd perthnasol sy'n tarddu o'r Swistir y caniateir ei lanio yng Nghymru neu ei symud o fewn Cymru os yw pasbort planhigion y Swistir yn mynd gydag ef

**5.** Y planhigion a ganlyn a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr y mae cynhyrchu a gwerthu'r planhigion hynny wedi eu hawdurdodi i bersonau sy'n ymwneud â chynhyrchu planhigion wrth fasnachu neu gynnal busnes, ac eithrio planhigion a baratowyd ac sy'n barod i'w gwerthu i'r defnyddiwr terfynol, ac y mae'n amlwg eu bod wedi eu cynhyrchu ar wahân i gynhyrchion eraill, fel a warentir gan berson a awdurdodir gan ddeddfwriaeth y Swistir i roi gwarant o'r fath—

(a) planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, o'r genera *Abies* Mill., *Apium graveolens* L., *Argyanthemum* spp., *Asparagus officinalis* L., *Aster* spp., *Brassica* spp., *Castanea* Mill., *Cucumis* spp., *Dendranthema* (DC.) Des Moul., *Dianthus* L., *Exacum* spp., *Fragaria* L., *Gerbera* Cass., *Gypsophilia* L, pob rhywogaeth o hybridau Guinea Newydd *Impatiens* L., *Lactuca* spp., *Larix* Mill., *Leucanthemum* L., *Lupinus* L., *Pelargonium* L'Hérit. ex Ait., *Picea* A. Dietr., *Pinus* L., *Platanus* L., *Populus* L., *Prunus laurocerasus* L., *Prunus lusitanica* L., *Pseudotsuga* Carr., *Quercus* L., *Rubus* L., *Spinacia* L., *Tanacetum* L., *Tsuga* Carr., *Verbena* L. neu blanhigion eraill rhywogaethau llysieuol, ac eithrio planhigion o'r teulu Gramineae neu fylbiau, cormau, rhisomau, neu gloron;

(b) planhigion, ac eithrio hadau, Solanaceae, ac eithrio'r planhigion hynny y cyfeirir atynt ym mharagraff 2, a fwriedir ar gyfer eu plannu;

(c) planhigion Araceae, Marantaceae, Musaceae, *Persea* spp. neu Strelitziaceae, sydd â gwreiddiau neu sy'n gysylltiedig â chyfrwng tyfu neu yr ymddengys iddynt fod mewn cysylltiad â chyfrwng tyfu;

(d) planhigion Palmae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5 cm ac sy'n perthyn i'r genera neu'r rhywogaethau a ganlyn: *Brahea* Mart., *Butia* Becc., *Chamaerops* L., *Jubaea* Kunth., *Livistona* R.Br., *Phoenix* L., *Sabal* Adans., *Syragrus* Mart., *Trachycarpus* H. Wendl., *Trithrinax* Mart. neu *Washingtonia* Raf.;

(e) hadau neu fylbiau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, Allium ascalonicum L., Allium cepa L., Allium schoenoprasum L., Helianthus annuus L., Medicago sativa L., Solanum lycopersicum L. neu Phaseolus L.;

(f) planhigion *Allium porrum* L. a fwriedir ar gyfer eu plannu; neu

(g) bylbiau, cormau, cloron neu risomau a fwriedir ar gyfer eu plannu, *Camassia* Lindl., *Chionodoxa* Boiss., *Crocus flavus* Weston "Golden Yellow", *Dahlia* spp., *Galanthus* L., *Galtonia candicans* (Baker) Decne., cyltifarau bychain y genws *Gladiolus* Tourn. ex. L. (megis *Gladiolus callianthus* Marais, *Gladiolus colvillei* Sweet, *Gladiolus nanus* hort., *Gladiolus ramosus* hort. neu *Gladiolus tubergenii* hort.), *Hyacinthus* L., *Iris* L., *Ismen*e Herbert, *Lilium* spp., *Muscari* Miller, *Narcissus* L., *Ornithogalum* L., *Puschkinia* Adams, *Scilla* L., *Tigridia* Juss. neu *Tulipa* L.